

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg**

**Jeremy Isaac – Live Life
Smiling**

29 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	12
5.	Y Camau Nesaf.....	14
6.	Methodoleg	15
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o bractis Jeremy Isaac – Live Life Smiling yn 68 Commercial Road, Tai-bach, Port Talbot, SA13 1LP, ar 29 Chwefror 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Jeremy Isaac – Live Life Smiling yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Jeremy Isaac – Live Life Smiling yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Port Talbot, gorllewin Morgannwg. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Jeremy Isaac – Live Life Smiling yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd deintyddol, chwe nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un derbynnydd, a rheolwr practis sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwys.

Cynigir ystod o wasanaethau deintyddol preifat a GIG (mae'r gwasanaethau GIG ar gyfer plant yn unig) yn y practis hwn. Mae chwaer-bractis deintyddol arall yn 80 Fairwood Drive, Baglan, SA12 8NU, sy'n darparu triniaeth GIG.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Jeremy Isaac – Live Life Smiling yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol, a bod gan gleifion lawer o barch ato. Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfod bod angen gwelliannau. Gwnaethom argymhell bod y deintyddion yn cynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn rhannu dysgu a'r arferion gorau. Roedd y ddau ddeintydd yn aros am dystysgrifau cyfredol gan AGIC ac yn bwriadu eu harddangos mewn man amlwg yn y practis ar ôl eu derbyn. Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu rolau ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Mae digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae'r ffaith eu bod yn buddsoddi mewn hyfforddwr busnes deintyddol yn eu helpu i ddatblygu arferion gorau
- Mae'n annog staff i ddatblygu eu harferion drwy gadw cofnod o'u hanghenion hyfforddiant
- Mae'n sicrhau polisïau a gweithdrefnau cyfredol er mwyn gwarchod diogelwch cleifion
- Mae ganddo wefan er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Mae angen tystysgrifau ar gyfer yr holl beiriannau pelydr-X
- Cofnodi nodiadau cleifion
- Arddangos tystysgrifau AGIC
- Arddangos y broses gwyno ar gyfer cleifion GIG
- Gwella'r trefniadau ar gyfer storio offer deintyddol
- Sicrhau bod cyfarpar meddygol yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn osgoi mynd y tu hwnt i'r dyddiadau dod i ben.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy ein holiadur cleifion yn canmol y gwasanaeth a ddarperir a'r staff eu hunain. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gwybodaeth fanwl ar gyfer cleifion wedi'i harddangos ar wefan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhaodd cyfanswm o bymtheg claf holiadur AGIC, ac roedd y practis wedi sicrhau bod yr holiadur hefyd ar gael yn y Gymraeg. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

"Practis cyfeillgar iawn. Bob amser yn barod i helpu."

"Mae'r sylw maen nhw'n ei roi i ofalu am gwsmeriaid heb ei ail."

"Mae'r deintydd wastad yn amyneddgar, oherwydd rydw i bob amser yn llawn pryder, ac mae'r merched bob amser yn garedig."

"Maen nhw wastad yn estyn croeso i mi ac rwy'n hapus i ddod yma."

Gofal gydag urddas

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion mewn modd cyfeillgar ond proffesiynol, a bod ganddynt berthynas dda gyda chleifion mewn sgysiau wyneb yn wyneb a dros y ffôn. Dywedodd staff wrthym fod ystafell ar gael os oedd cleifion am drafod rhywbeth yn breifat. Dywedodd pob un o'r pymtheg o bobl a wnaeth ymateb i'r holiadur eu bod yn fodlon/yn fodlon iawn ar y wybodaeth a roddwyd iddynt am eu triniaeth. Roedd naw o ymatebwyr wedi bod gyda'r practis ers rhwng deg ac ugain blynedd, a'r lleill am bum mlynedd neu lai. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod bob amser yn cael eu trin mewn modd parchus ac urddasol a bod y staff yn treulio amser yn esbonio pethau iddynt.

Gofal amserol

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw mai anaml iawn yr oedd yn rhaid iddynt aros o ganlyniad i oedi, a'u bod yn derbyn esboniad ac ymddiheuriad pan oedd hynny'n digwydd. Roedd gwybodaeth gan holiaduron AGIC yn dangos nad oedd y rhan fwyaf o gleifion wedi gorfod aros o ganlyniad i oedi, a'u bod yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol 'y tu allan i oriau' (gwasanaethau brys). Roedd gan y practis system apwyntiadau hyblyg, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i weld cleifion a oedd angen triniaeth frys.

Cadw'n iach

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn derbyn digon o wybodaeth i'w helpu i gynnal eu hiechyd deintyddol, a'u bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid. Ni welsom unrhyw hysbysiadau wedi eu harddangos ym manau aros y practis, ond roedd digonedd o daflenni ar gael, a oedd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am hylendid deintyddol da a chynhyrchion sy'n gallu helpu i gynnal iechyd deintyddol da. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae gan bractis Jeremy Isaac – Live Life Smiling wefan hefyd, sy'n rhoi gwybodaeth am wasanaethau a gynigir gan y gwasanaeth ac sy'n cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gofal unigol

Roedd ymatebion y cleifion i holiaduron AGIC yn dangos eu bod yn cael croeso cynnes bob amser, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom restr brisiau a manylion am y weithdrefn gwyno wedi eu harddangos ar ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn gwyno'r practis yn cynnwys y trefniadau ar gyfer cleifion y GIG, sy'n wahanol i'r rheoliadau cwyno ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Mae Safon Iechyd a Gofal 6.3 yn annog y dylid sicrhau bod yr holl gleifion yn gwybod sut i wneud cwyn.

Yr hyn mae angen ei wella:

Dylid arddangos hysbysiadau sy'n dangos manylion y broses gwyno ar gyfer cleifion GIG, fel yr amlinellir yn 'Gweithio i Wella', sef y trefniadau cwyno ar gyfer gwasanaethau GIG yng Nghymru.

Dyweddodd cleifion wrthym fod y staff yn treulio amser yn gwranddo arnynt ac yn cynnig cyngor ynglŷn ag unrhyw bryderon neu gwynion. Roedd y practis hefyd yn defnyddio eu holiaduron eu hunain i gasglu adborth gan gleifion, ac roedd unrhyw bryderon a ddaeth i'r amlwg yn cael sylw mewn cyfarfodydd misol. Pan fyddai claf yn gwneud cais neu'n mynegi pryder, dywedodd y staff wrthym eu bod yn ei gofnodi yn nodiadau'r claf ac yn ei drafod yn y cyfarfodydd staff misol hefyd.

Roedd yn hawdd i ddefnyddwyr cadair olwyn fynd i mewn i'r adeilad, ond nid oedd y toiledau'n ddigon llydan i symud o gwmpas. Gwnaethom ofyn am hyn ac fe'n hysbyswyd y byddai mynediad defnyddwyr cadair olwyn at y toiled yn gwella am eu bod wedi prynu adeilad cyfagos yn ddiweddar. Gwnaethom nodi nad oedd modd cael gwared ar dyweli mislif yn y toiledau, sy'n mynd yn groes i Reoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992.

Yr hyn mae angen ei wella:

Mae angen sicrhau bod cyfleusterau ar gael i gael gwared ar dyweli mislif yn y toiledau.

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd arwyddion ar unrhyw ddrysau yn y practis. Gwelsom fod gosodiad a chyfleusterau'r practis yn fodern iawn, ond roedd diffyg arwyddion yn golygu bod yn rhaid tywys cleifion i'r ystafell briodol ar gyfer eu triniaeth. Gwnaethom drafod hyn ag uwch ddeintydd, a ddywedodd y byddai'n ystyried gosod arwyddion a fyddai'n cyd-fynd â sut roedd y practis wedi'i addurno yn bresennol, a derbyniodd yntau ein sylwadau am y diffyg arwyddion. Fodd bynnag, roedd arwyddion i ddangos parthau a reolir ac allanfeydd tân.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn rhoi gofal deintyddol diogel ac effeithiol mewn amgylchedd modern, glân a chyfforddus.

Canolbwyntiodd y staff ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol drwy gael polisiau priodol ar waith megis rheoli heintiau; roeddent hefyd yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a hefyd rheoliadau amddiffyn oedolion a phlant.

Mae angen i'r practis sicrhau hefyd bod dogfennau priodol ar gyfer tri o'r pedwar peiriant pelydr-X yn cael eu casglu a'u hanfon at AGIC fel y trafodwyd.

Gofal diogel

Canfuom fod y practis yn cymryd camau er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd adeilad y practis i'w weld mewn cyflwr da iawn, ac roedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel iawn. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod mewn mannau strategol drwy'r adeilad, a gwelsom gontract cynnal a chadw ar gyfer yr offer tân yn yr adeilad.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd diogel yn y practis. Roedd contractau ar waith ar gyfer storio a gwaredu cynhyrchion gwastraff peryglus a rhai nad ydynt yn beryglus ill dau mewn modd diogel. Gwnaethom nodi bod y practis wedi cynnal asesiad risg o'r adeilad yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gwnaethom edrych ar y llyfr damweiniau a gedwid gan y practis a gwelsom fod sawl achos o anafiadau â nodwyddau sy'n gysylltiedig â'r arfer o ailosod nodwyddau yn eu gwain. Gwnaethom drafod hyn â'r staff ac fe'n hysbyswyd bod yr arfer hwn bellach wedi newid, ac mai dim ond y deintydd, nid y nyrsys, oedd yn tynnu nodwyddau, gan ddefnyddio dyfais briodol. Darparwyd gofal meddygol ar gyfer anafiadau â nodwyddau drwy'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol GIG lleol.

Rheoli heintiau

Fe'n sicrhawyd bod y practis hwn yn cymryd camau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, am y rhesymau canlynol:

- Mae ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Mae sinc penodol i olchi dwylo

- Defnyddir cyfarpar diogelu personol, megis offer diogelu llygaid, ffedogau a menig, wrth gyflawni gweithdrefnau deintyddol
- Caiff gwastraff clinigol ei storio mewn cynwysyddion dan glo y tu allan i gefn yr adeilad.

Gwelsom hefyd fod gan y practis bolisi rheoli heintiau a addaswyd o ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) a'i fod wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau.

Fodd bynnag, gwelsom fod rhai o'r offer deintyddol yn cael eu storio'n rhydd mewn droriau. Fe'n hysbyswyd nad oedd y rhain yn cael eu defnyddio, a'u bod yn cael eu storio i'w defnyddio yn y dyfodol. Gwnaethom gynghori'r staff bod yn rhaid storio offer deintyddol yn unol â'r hyn a nodir yn WHTM 01-05, 2.4 j. Lle nad oes pecyn, dylid defnyddio offer yn ystod y sesiwn driniaeth honno. Diffinnir hynny fel un diwrnod gweithredol yn unig. Yna, bydd yn rhaid ailbroseu offer heb becyn o fewn y cyfnod penodol hwnnw, p'un a ydynt wedi cael eu defnyddio ai peidio.

Yr hyn mae angen ei wella:

Mae'n rhaid i offer deintyddol sydd wedi eu storio gael eu selio, eu rhoi mewn bagiau, a'u dyddio. Lle mae offer wedi'u dadbacio a heb gael eu defnyddio o fewn un sesiwn driniaeth, mae'n rhaid iddynt gael eu hailbroseu, p'un a ydynt wedi cael eu defnyddio ai peidio.

Cyffuriau brys, cyfarpar dadebru, a rheoli meddyginiaethau

Roeddem yn fodlon ar drefniadau'r practis hwn ar gyfer rheoli meddyginiaethau, a'u hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR), a gwblhawyd gan yr holl staff clinigol drwy Ddeoniaeth Cymru. Gwelsom fod cyffuriau brys yn cael eu cadw yn unol â'r gofynion lleol, a'u bod o fewn eu dyddiad, a bod y practis yn cadw cofnod i ddangos bod cyffuriau'n cael eu gwirio'n rheolaidd. Gwnaethom sylweddoli, fodd bynnag, bod un o blith nifer o'r llwybrau anadlu artiffisial heibio ei ddyddiad. Cafodd hwnnw ei dynnu oddi yno, ac fe'n sicrhawyd y byddent yn archebu un newydd.

Yr hyn mae angen ei wella:

Dylid gwirio'r holl lwybrau anadlu artiffisial yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod o fewn eu dyddiad dod i ben.

Diogelu

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion a allai fod yn agored i niwed neu mewn

perygl. Roedd gan y practis bolisiau diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ac roedd y practis wedi trefnu bore hyfforddiant amddiffyn oedolion ar gyfer 18 Mawrth 2016 – byddai ar gau yn ystod y cyfnod hwn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'u dyletswydd i weithredu yn unol â pholisi diogelu'r practis pe baent yn darganfod unrhyw faterion diogelu yn ymwneud â phlentyn neu oedolyn.

Nid oedd yr holl staff wedi derbyn gwiriadau cyn cyflogaeth am eu bod wedi eu cyflogi yn y practis ers blynnyddoedd lawer. O ran y ddwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, fe'n hysbyswyd y byddai gwiriadau cyn-gyflogaeth ar gyfer y ddwy ohonynt wedi eu cynnal gan 'Learn Kit Ltd'. Hwn oedd y cwmni a oedd yn gyfrifol am gydlynu anghenion dysgu'r ddwy nyrs dan hyfforddiant.

Offer radiograffeg

Gwelsom fod y ddau ddeintydd a oedd yn gyfrifol am wneud radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom ofyn i weld llythyr yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am wiriadau radiolegol ar gyfer y pedwar peiriant pelydr-X a ddefnyddir yn y practis. Ar adeg yr arolygiad, cyflwynodd y deintydd dystysgrif ar gyfer dim ond un o'r pedwar peiriant pelydr-X, ond dywedodd wrthym fod asesiad critigol o'r peiriannau eraill wedi'i gynnal. Gwnaethom gynghori bod angen tystysgrifau ar gyfer y tri pheiriant pelydr-X arall, ac y dylid anfon cadarnhad ymlaen at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o fewn 48 awr, oherwydd gallai methu â gwneud hyn fod yn rheswm i sbarduno'r broses 'sicrwydd ar unwaith'. Mae gofyniad cyfreithiol ar bractisau deintyddol i hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'u bwriad i weithio gydag ymbelydredd. Mae hyn yn unol â Rheoliad 6 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, a hefyd er mwyn bodloni Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Wedi inni gynnal ein harolygiad, gwnaeth y practis gydymffurfio â'n cais i anfon tystiolaeth o dystysgrif y tri pheiriant pelydr-X arall i AGIC.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol megis rheoli heintiau, a'i fod wedi cwblhau archwiliad Gofalu am Sylweddau Peryglus i

lechyd a bod ganddo daflenni data diogelwch ar gyfer yr holl gynhyrchion yn y categori hwn. Gwelsom hefyd bolisïau ar gyfer codi a chario a sut roedd y practis yn defnyddio canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i asesu risg yn y gweithle.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar bum cofnod cleifion ar gyfer pob un o'r ddau ddeintydd. Er inni ganfod fod y cofnodion yn gyffredinol yn eithaf manwl, roedd rhai meysydd lle roedd angen gwneud gwelliannau fel a ganlyn:

Gwnaethom nodi nad oedd hanesion meddygol cychwynnol cleifion bob amser wedi eu llofnodi, eu cydlofnodi, na'u dyddio. Er nad yw cydlofnodi'n orfodol, mae'n rhaid i'r practis gael system gyson ar gyfer sicrhau bod y deintydd yn gwirio pob hanes meddygol.

Nid oedd hanes cymdeithasol yn ymwneud ag arferion ysmegu ac yfed alcohol bob amser yn cael ei archwilio, na sgrinio ar gyfer canser lle roedd hynny'n risg.

Roedd cofnodion archwiliadau peridontol sylfaenol yn anghyson ac nid oeddent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Nid oedd y cyfiawnhad, y canfyddiadau clinigol, a graddiad radiograffau (sganiau pelydr-X) bob amser wedi eu cofnodi yng nghofnodion cleifion.

Yr hyn mae angen ei wella:

Mae angen i'r hanes meddygol cychwynnol gael ei lofnodi, ei ddyddio a'i gydlofnodi.

Cynnwys manylion hanes cymdeithasol, e.e. ysmegu, defnydd o alcohol, a sgrinio ar gyfer canser i gleifion lle ystyrir bod hynny'n risg. Rhoi cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu lle bo hynny'n berthnasol.

Cofnodi archwiliadau peridontol sylfaenol yn gyson ac yn rheolaidd.

Mae'n rhaid i bob deintydd gofnodi yng nghofnodion cleifion y cyfiawnhad, y canfyddiadau clinigol, a'r graddiad yng nghyswllt pob sgan pelydr-X.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn eu swyddi, ac roedd llawer ohonynt wedi bod yno ers blynyddoedd lawer. Roedd y staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y ddau ddeintydd a chan ei gilydd. At ei gilydd, roedd y staff i'w gweld yn grŵp hapus, hyderus a chydlynol. Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo arferion gorau, a oedd yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel i gleifion. Roedd y ddau ddeintydd yn aros am dystysgrifau cyfredol gan AGIC ac yn bwriadu eu harddangos mewn man amlwg yn y practis ar ôl eu derbyn.

Darperid gofal deintyddol i'r cleifion mewn amgylchedd modern a glân. Roedd y practis wedi prynu'r adeilad drws nesaf, gyda'r nod o gynyddu'r cyfleusterau ar gyfer staff a chleifion.

Roedd y practis yn elwa ar hyfforddwr busnes deintyddol proffesiynol a oedd yn helpu staff i ddatblygu eu hunain yn broffesiynol ac a oedd hefyd yn rhoi cyngor ynglŷn â datblygu'r practis. Roedd y practis yn cadw cofnod o hyfforddiant, ac roedd ganddo fwrdd 'anghenion hyfforddiant' yn y gegin er mwyn i'r staff nodi eu hanghenion hyfforddiant fel y gallent helpu i ddatblygu eu harferion. Yna, trefnodd rheolwr y practis i fodloni'r anghenion hynny lle roedd modd. Gwnaethom drafod hyn â'r staff, ac roeddent yn teimlo bod y system hon yn gweithio'n eithaf da.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol a gyflogir gan y practis, a bod gan bob aelod o staff yswiriant indemniad.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ond gwnaethom nodi bod diffyg tystysgrifau AGIC yr oedd angen eu harddangos ar gyfer y ddau ddeintydd. Yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat, mae'n rhaid i dystysgrif cofrestriad ar gyfer deintyddiaeth breifat 'gael ei harddangos mewn man amlwg'. Gwnaethom ofyn am hyn ac fe'n hysbyswyd eu bod yn aros i dderbyn tystysgrifau diwygiedig gan AGIC. Gwnaethom gynghori bod angen sicrhau bod y rhain yn cael eu harddangos mewn man amlwg ar ôl iddynt eu derbyn gan AGIC.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gweld tystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu yn rheolaidd a'u bod yn drefnus. Gwelsom gofnodion cyfarfodydd misol y practis ar gyfer yr holl staff. Roedd

system ar waith hefyd i'r tîm o uwch reolwyr, a oedd yn cynnwys deintyddion a rheolwr y practis, gwrdd bob pythefnos. Roedd hefyd cyfarfodydd, yr oedd y staff yn cyfeirio atynt fel 'cyfarfodydd canol', ar gyfer unrhyw faterion a oedd angen sylw ar unwaith. Gwelsom sut y cynhelid arfarniadau staff, a gwelsom hefyd raglen gynefino ar gyfer yr holl staff newydd.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Jeremy Isaac – Live Life Smiling yn derbyn sylw, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008¹ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.² Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisiau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Jeremy Isaac – Live Life Smiling

Dyddiad yr arolygiad: 29 Chwefror 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Dylid arddangos hysbysiadau sy'n dangos manylion y broses gwyno ar gyfer cleifion GIG, fel yr amlinellir yn 'Gweithio i Wella'.	Safon lechyd a Gofal 6.3	Wedi eu harddangos yn y dderbynfa	L Morris	Cwblhawyd
7	Mae angen sicrhau bod cyfleusterau ar gael i gael gwared ar dyweli mislif yn y toiledau.	Rheoliadau'r Gweithle (lechyd, Diogelwch a	Mae uned wedi'i gosod ar gyfer cael gwared ar dyweli mislif	L Morris	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Lles) 1992			
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Mae'n rhaid i offer deintyddol sydd wedi eu storio gael eu selio, eu rhoi mewn bagiau, a'u dyddio. Lle mae offer wedi'u dadbacio a heb gael eu defnyddio o fewn un sesiwn driniaeth, mae'n rhaid iddynt gael eu hailbroseu, p'un a ydynt wedi cael eu defnyddio ai peidio.	WHTM 01-05 2.4 j	Protocol a systemau ar waith Gwaith monitro gan yr arweinydd croes-heintio	S L Williams	Cwblhawyd Parhaus
9	Dylid gwirio'r holl lwybrau anadlu artiffisial yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod o fewn eu dyddiad dod i ben.	Safon lechyd a Gofal 2.9	Rhestr wirio ar waith, a bydd y data'n cael ei osod ar system ddyddiadur electronig	G John	Ar unwaith
11	Mae angen i'r hanes meddygol cychwynnol gael ei lofnodi, ei ddyddio a'i gydlofnodi.	Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1.1 a 4.1.2		L Morris	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11	Cynnwys manylion hanes cymdeithasol, e.e. ysmegu, defnydd o alcohol, a sgrinio ar gyfer canser i gleifion, lle ystyrir bod hynny'n risg. Rhoi cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu lle bo hynny'n berthnasol.	Safonau lechyd a Gofal 4.2	Cynnwys y camau gweithredu ar ffurflenni newydd ynglŷn â hanes meddygol	L Morris	Tri mis
11	Cofnodi archwiliadau peridontol sylfaenol yn gyson ac yn rheolaidd.		Archwiliad clinigol bob 3 mis i'w monitro	L Morris	Parhaus
11	Mae'n rhaid i bob deintydd gofnodi yng nghofnodion cleifion y cyfiawnhad, y canfyddiadau clinigol, a'r graddiad yng nghyswllt pob sgan pelydr-X.		Archwiliad clinigol i'w monitro	L Morris	Parhaus
Answadd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	Nid oes angen gwella unrhyw feysydd.				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): ...LAURA MORRIS.....

Teitl: ...Rheolwr y Practis.....

Dyddiad:24/06/2016.....